| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **17, MAI, 2012** |
| **PWNC:** | **Y CYFANSODDIAD.** |
| **AWDUR:** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor yn Hydref 2011 a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae angen i'r Cyngor fabwysiadu Cyfansoddiad newydd fydd yn cyflwyno trefniadau gweithredol (trefn gabinet).

2. Y prif newid i drefniadau'r Cyngor ydi fod hawliau penderfynu ar a gweithredu mwyafrif helaeth swyddogaethau'r awdurdod yn trosglwyddo oddi wrth y Cyngor i'r Weithrediaeth.

3. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y gyllideb a'r fframwaith polisi (sy'n golygu y Cynllun Tair Blynedd a nifer o strategaethau penodol a restrir yn erthygl 4 o'r Cyfansoddiad). Hefyd fe gedwir i'r Cyngor yr hawl i benodi Arweinydd, mabwysiadu neu ddiwygio'r Cyfansoddiad, gosod polisi cyflogau prif swyddogion, a gwneud is-ddeddfau.

4. Bydd materion rheolaeth datblygu yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio, materion trwyddedu yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Trwyddedu, materion y gronfa bensiwn yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Pensiynau ac unrhyw apeliadau gan staff y Cyngor yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth.

5. Bydd popeth arall yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth. Ni fydd hawl cyfeirio i fyny i'r Cyngor Llawn.

6. Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar nifer aelodau'r Weithrediaeth a'u portffolios ac yn rhoi gwybod am hynny i'r Cyngor. Bydd gan aelodau unigol y Weithrediaeth hawl penderfynu mewn perthynas â materion o fewn eu portffolios, yn amodol ar rai cyfyngiadau. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan aelod unigol yn ddarostyngedig i'r un trefniadau a phenderfyniadau eraill y Weithrediaeth sef adroddiad ysgrifenedig llawn, cyhoeddi taflen benderfyniad a'r hawl i alw i mewn i bwyllgor craffu.

7. Bydd y tri phwyllgor craffu, ac i raddau y Pwyllgor Archwilio, hefo'r rôl o alw'r Weithrediaeth ac aelodau unigol y Weithrediaeth, i gyfrif. Bydd gan y pwyllgorau craffu yr hawl i alw i mewn benderfyniadau'r Weithredieth neu aelodau unigol o'r Weithrediaeth dan amgylchiadau penodol (gweler y Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu isod).

8. Bydd gan y pwyllgorau craffu hefyd y dyletswydd hollbwysig o ychwanegu gwerth i weithgareddau'r Cyngor a'r canlyniadau i drigolion y sir, trwy gynnal astudiaethau o effaith gwahanol bolisïau ar y trigolion, monitro perfformiad gwahanol wasanaethau a chynnal ymchwiliadau i bynciau perthnasol er mwyn cyflwyno argymhellion i'r Weithrediaeth.

9. Bu trafodaeth yn y Cyngor diwethaf am ddyfodol y pwyllgorau ardal a phenderfynwyd ystyried ymhellach symud at fforymau ardal. Gyda’r newid i drefn weithredol ni fydd gan y pwyllgorau ardal unrhyw rôl gwneud penderfyniadau. Ym mis Mawrth cafwyd sylwadau'r dair ardal ar y trefniadau ond ni fu cyfle i'w trafod a dod i gasgliad. Erys y drafodaeth felly ar union rôl a phwrpas y pwyllgorau ardal a sut orau i’w ymgorffori i gyfansoddiad y Cyngor. Am y rheswm hwnnw nid yw’r fersiwn o’r Cyfansoddiad a gyflwynir yma yn cynnwys y pwyllgorau ardal ac argymhellir dod ag adroddiad pellach gerbron y Cyngor fis Mehefin yn ymdrin yn benodol â’r pwyllgorau ardal.

10. Mae’r tablau sy’n dilyn yn cryhoi’r prif newidiadau a wneir i’r Cyfansoddiad.

| **RHAN 1 - CRYNODEB AC ESBONIAD.** |
|---|
| Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi rhagymadrodd o weddill y Cyfansoddiad. Mae unrhyw newidiadau wedi eu nodi yn y rhannau perthnasol isod :- |

| **RHAN 2 - YR ERTHYGLAU.** |
|---|
| Dim newidiadau o sylwedd i erthyglau 1, 2, 3, 4 na 5. |
| Erthygl 6 – Pwyllgorau Craffu:<br><br>Mae newidiadau i nifer, cyfansoddiad a chylch gorchwyl y pwyllgorau craffu. Sefydlir 3 pwyllgor craffu (Corfforaethol, Cymunedau a Gwasanaethau) gyda 18 aelod yr un arnynt a phŵer i bob un alw i mewn benderfyniadau'r Cabinet. |
| Erthygl 7 – Y Weithrediaeth:<br><br>Mae'r erthygl yn cyflwyno trefn weithredol (Cabinet) i'r awdurdod. Sefydlir cabinet o hyd at 10 aelod, i'w penodi gan yr Arweinydd, a chyda hawliau gweithredu eang. |
| Erthygl 8 – Pwyllgorau Rheoleiddio ac Eraill.<br><br>Cynyddir nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Archwilio i 18 ac ar y Pwyllgor Trwyddedu i 15. Sefydlir Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i oruchwylio'r gwasanaethau i aelodau (yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) ynghyd a Phwyllgor Iaith o 15 aelod i gymryd lle'r hen Is-bwyllgor Iaith.<br><br>Gan nad yw'r Cyfansoddiad yn sefydlu pwyllgorau ardal am y tro mae'r dyletswyddau sy'n ymwneud â thrwyddedu cerbydau hacni yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Trwyddedu. |
| Dim newidiadau o sylwedd i Erthyglau 9, 10, 11 (heblaw am gyflwyno swydd statudol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), 13, 14 nac 15. |

| **RHAN 3 – CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU.** |
|---|
| Dyma'r rhan o'r Cyfansoddiad sy'n dirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau, aelodau a swyddogion. Mae diwyg y rhan hwn o'r Cyfansoddiad wedi ei newid yn llwyr. O ran cynnwys nid oes newid o sylwedd i bwerau a swyddogaethau'r pwyllgorau apelau cyflogaeth, pensiynau na thrwyddedu canolog. |

| |
|---|
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Mae hwn yn bwyllgor newydd i gyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â chefnogi aelodau ac ystyried a yw'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn ddigonol. |
| Y Pwyllgor Archwilio<br><br>Yn ogystal â'r swyddogaethau arferol o oruchwylio materion ariannol a derbyn adroddiadau archwilio mewnol mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael dyletswyddau newydd o adolygu ac asesu trefniadau'r cyngor ar gyfer llywodraethu corfforaethol a chraffu ar faterion ariannol. |
| Y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol<br><br>Yr un yw hwn a'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog ac fe roddir iddo'r swyddogaethau o ymdrin â materion trwyddedu tacsis a marchnadoedd. |
| Pwyllgor Cynllunio<br><br>Yn ogystal â'i ddyletswyddau cynllunio mae'r pwyllgor yn derbyn, dros dro, hawliau i benderfynu ar orchmynion traffig a llwybrau. |
| Cynllun Dirprwyo i Swyddogion<br><br>Nid oes newidiadau o sylwedd i'r hawliau dirprwyo i swyddogion. |

| **RHAN 4 – RHEOLAU GWEITHDREFN** |
|---|
| Yn y rhan hwn o’r Cyfansoddiad ceir y rheolau sy’n ymdrin â’r ffordd mae’r Cyngor a’i bwyllgorau’n gweithredu. Mae newidiadau yn cael eu cyflwyno i bedwar ohonynt. |
| Rheolau Gweithdrefn y Cyngor<br><br>Rheol 13:<br>Cyflwynir, am y tro cyntaf, yr hawl i aelodau o’r cyhoedd gyflwyno deiseb i’r Cyngor. Rhaid i’r ddeiseb fod yn berthnasol i swyddogaethau’r Cyngor neu effeithio ar yr ardal, fod ag o leiaf 50 llofnod arni a rhaid rhoi 10 diwrnod o rybudd. Bydd gan y sawl sy’n cyflwyno’r ddeiseb 3 munud i annerch y cyfarfod. |
| Rheol 14:<br>Mae’r Cyfansoddiad hefyd yn cyflwyno hawl i aelod o’r cyhoedd i ofyn cwestiwn mewn cyfarfod o’r Cyngor llawn. Mae’r drefn yn cynnwys rhoi 10 diwrnod o rybudd, bod rhaid i’r cwestiwn gwrdd a nifer o amodau ynghylch ei gynnwys, caniatáu 2 funud i ofyn y cwestiwn a rhoi’r hawl i gwestiwn atodol. Dim ond 2 gwestiwn gan aelodau’r cyhoedd a roddir ar raglen unrhyw gyfarfod o’r Cyngor. |
| Rheol 16:<br>Cyflwynir hawl newydd i gynnal trafodaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn ar bwnc penodol a gynigir gan aelod o’r Cyngor. Cyfyngir y drafodaeth i 30 munud. Rhaid rhoi rhybudd o’r pwnc 10 diwrnod ymlaen llaw ac ni fydd hawl i wneud cynnig ffurfiol mewn perthynas â’r ddadl. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw’r pwnc yn addas i’w drafod. |

| |
|---|
| Rheolau Gweithdrefn y Weithrediaeth<br><br>Gan fod trefniadau gweithredol yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf mae’r rheolau gweithdrefn yma yn gwbl newydd. Maent yn egluro’r ffordd y bydd y Weithrediaeth (neu’r Cabinet) yn cyfarfod. Mae’r rheolau gweithdrefn yn ymdrin â’r materion canlynol;<br><br>• Y modd mae’r Weithrediaeth i ddirprwyo ei hawliau - i bwyllgor, i aelodau unigol neu i swyddog<br>• Y drefn ar gyfer cynnal cyfarfodydd o’r Weithrediaeth – boed yn gyfarfodydd cyhoeddus neu rai caeedig |
| Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu<br><br>Yr unig newidiadau o sylwedd a wneir i’r rheolau gweithdrefn yma ydi i’r trefniadau galw i mewn sy’n caniatau i bob pwyllgor craffu alw i mewn unrhyw benderfyniad o eiddo’r Weithrediaeth neu aelod unigol o’r Weithrediaeth. Mae’r trefniadau galw i mewn yn golygu rhybudd gan Gadeirydd y pwyllgor ac unrhyw ddau aelod ac mae’n rhaid rhoi rhesymau sy’n dangos fod y penderfyniad tu allan i’r fframwaith bolisi neu’r gyllideb, nad yw’r trefniadau ymgynghori hefo’r pwyllgorau craffu wedi eu dilyn neu nad oes sylw digonol wedi ei roi i ystyriaethau cyfreithiol. Effaith galw penderfyniad i mewn ydi na ellir ei weithredu hyd oni fod y pwyllgor craffu wedi ei ystyried (oni bai ei fod yn benderfyniad brys).<br><br>Wedi ystyried y penderfyniad gall y pwyllgor craffu gyfeirio'r mater yn ôl i'r Weithrediaeth (neu'r aelod unigol o'r Weithrediaeth) i'w ail-ystyried, neu i gyfeirio at y Cyngor i'w drafod. Fodd bynnag, ni all y Cyngor newid y penderfyniad, ac os yw'n gwrthwynebu iddo rhaid iddo ei gyfeirio yn ôl i'r Weithrediaeth i'w ail ystyried. |
| Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth<br><br>Y prif newid ydi'r angen i greu rhaglen waith i'r Weithrediaeth, y pwyllgorau craffu a'r Cyngor, a'i chyhoeddi 14 diwrnod ymlaen llaw. Mae angen caniatáu cyfnod ar gyfer ymgynghori gyda'r pwyllgorau craffu cyn i'r Weithrediaeth ystyried materion ar ei raglen waith. |

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i’r Cyngor :

(a) Fabwysiadu’r rhannau atodol o’r Cyfansoddiad i ddisodli’r rhannau cyfatebol yn yr hen gyfansoddiad
(b) Ofyn am adroddiad pellach ar y pwyllgorau ardal ym mis Mehefin